## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y BIL CYLLID TROSEDDOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Cyllid Troseddol (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Hydref 2016. Gellir cael copi o'r Bil yn:
Criminal Finances Bill 2016-17 — UK Parliament

### Amcan(ion) polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw rhoi i asiantaethau gorfodi'r gyfraith, a'u partneriaid, y galluoedd a'r pwerau i adennill enillion troseddau, mynd i'r afael â gwyngalchu arian a llygredd, ac ariannu gwrthderfysgaeth.

4. Nod y mesurau yn y Bil yw: gwella cydweithredu rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat; gwella'r ymateb o ran gorfodi cyfraith y DU; gwella'r gallu i adennill enillion troseddau, gan gynnwys llygredd rhyngwladol; a mynd i'r afael ag ariannu terfysgaeth.

### Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref.

6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- Mae Rhan 1 yn ymdrin ag enillion troseddu, gwyngalchu arian, adennill sifil, pwerau gorfodi a throseddau cysylltiedig ac yn creu amrywiaeth o bwerau newydd i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ofyn am wybodaeth ac ymafael mewn arian sy'n cael ei storio mewn cyfrifon banc a siopau symudol o werth.

- Bydd Rhan 2 yn sicrhau y caiff pwerau perthnasol mewn perthynas â gwyngalchu arian ac adennill asedau eu hymestyn i fod yn gymwys i ymchwiliadau o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 (TACT), yn ogystal â Deddf Enillion Troseddu (POCA).

- Bydd Rhan 3 yn creu dwy drosedd gorfforaethol newydd sef methiant i atal hwyluso efadu trethi a methiant i atal hwyluso efadu trethi tramor.

- Mae Rhan 4 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i POCA a deddfiadau eraill.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

7. Ceisir cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y darpariaethau canlynol:

**Cymal 37 – Methiant i atal hwyluso troseddau efadu trethi'r DU**

8. Bydd y cymal hwn yn ei gwneud yn drosedd i gorff perthnasol (corff corfforaethol neu bartneriaeth) fethu ag atal hwyluso trosedd efadu trethi'r DU (megis twyllo refeniw cyhoeddus, neu efadu trethi drwy dwyll). Mae'r drosedd arfaethedig hon yn berthnasol i Gymru gan y bydd y diffiniad o "UK tax evasion offence" yn ymestyn i gynnwys troseddau o efadu trethi datganoledig.

9. Ceir dwy elfen i'r drosedd newydd, a bydd angen i'r ddwy elfen fod yn bresennol i gorff perthnasol fod yn euog:

    - Yn gyntaf, rhaid i'r trethdalwr fod wedi cyflawni trosedd efadu trethi'r DU; ac
    - Yn ail, rhaid i berson sy'n gysylltiedig â'r corff perthnasol (megis asiant neu gyflogai) fod wedi cyflawni trosedd efadu trethi'r DU.

10. Er hynny, ni fydd y corff perthnasol yn cyflawni trosedd os gall ddangos fod ganddo weithdrefnau atal yn eu lle i atal y drosedd hwyluso rhag digwydd.

11. Mae corff perthnasol yn atebol i ddirwy adeg ei gollfarnu.

12. Mae'n ofynnol cael cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn berthnasol i fater trethi datganoledig o dan baragraff 16A o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Cyllid Troseddol**

13. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi creu'r drosedd newydd- sef methiant i atal hwyluso troseddau efadu trethi'r DU - fel cam pellach i fynd i'r afael ag efadu trethi.

14. Bydd gwneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil yn sicrhau y gall y DU yn ei chyfanrwydd ddefnyddio dull cyson i fynd i'r afael ag efadu trethi.

15. Ar hyn o bryd ceir awdurdodaethau trethi rhyng-gysylltiedig lluosog ledled y DU. Mae'r trethi ym mhob un o'r awdurdodaethau yn debyg ar hyn o bryd; er hynny, mae'r polisïau a'r blaenoriaethau ar gyfer pob

awdurdodaeth yn amrywio a byddant yn parhau i amrywio. Serch hynny, mae'n hollbwysig mynd i'r afael ag efadu trethi yn gyson a hynny mor eang â phosibl.

**Goblygiadau ariannol**

16. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydsynio â'r darpariaethau sy'n gymwys i Gymru.

**Casgliad**

17. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau ym Mil y DU hwn gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae'n bwysig bwrw ymlaen â hyn ar lefel y DU er mwyn dangos dull cydlynol o fynd i'r afael ag efadu trethi.

**Mark Drakeford AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Tachwedd 2016**